# <u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Glantwymyn 30.10.25</u>

**Neuadd Cymuned Glantwymyn am 7.30yh**

**19:864: Presennol:** Bedwyr Fychan (Cadeirydd), Iwan Pugh Jones, Deryck Lewis, Gareth Wyn Jones, William Owen, Aled Griffiths, Huw Williams, Rhodri Wigley, Gwen Lloyd, Paul Hughes, Elwyn Vaughan (Cyngor Sir) Gwenfair Rhys-Davies, Gareth Owen, Glyn Jones, Sandra Evans (Clerc)

**19:865: Ymddiheuriadau**: Dafydd Evans

**19:866: Materion Personol: -**

**19:867: Datganiadau o ddiddordeb**: Paul Hughes, Neuadd Glantwymyn, torri gwair, Elwyn Vaughan – Cynllunio, Gareth Owen - gohebiaeth

**19:868: Cyflwyno a derbyn cofnodion CCG Medi 2025**. Nodwyd bod Gareth Owen a Gwenfair Rhys-Davies yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf. Cynigiwyd bod y cofnodion yn iawn fel arall gan wan Pugh Jones ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen.

**19:869: Materion yn codi o'r cofnodion.** Dim

**19:870: Cynllunio** Newid i'r llawr isaf ac estyniad llawr cyntaf The Terrace, Cwmllinau Machynlleth, SY20 9NY Nid oedd Elwyn Vaughan yn rhan o'r drafodaeth. Cynigiodd Aled Griffiths y dylid cefnogi'r cais ac fe'i heiliwyd gan Paul Hughes.

**19:871: Diffibs – Diweddariad gan Bedwyr Fychan**. Cafwyd ymweliad gan Mr. Tomos Hughes. Diolch i CC Cadfarch am drosglwyddo cabinet i Abercegir. Bydd Bedwyr yn cymryd cyfrifoldeb am ddiffibs Abercegir a Llanwrin. Bydd yn cysylltu â pherchennog Tŷ Rhiwlas i drafod yn ogystal â chael padiau newydd i ddiffib Abercegir. (Bydd angen newid y padiau bob 5 mlynedd.) Bydd Rhodri Wigley'n cysylltu â pherchennog y tŷ lle mae diffib Tal-y-wern i drefnu lleoliad mwy perthnasol i'r pwrpas.

**19:872: Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

- Paul Hughes Torri gwair £2,880 Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Iwan Pugh Jones
- Cyflog y Clerc Mis Medi (6) £297.00 Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Gwenfair Rhys-Davies ac fe'i heiliwyd gan Gwen Lloyd.
- W R Partners 163.20 Infois 229193 (Datgan cydymffurfiaeth pensiynau)
- Canolfan Glantwymyn -Taliad blynyddol a llogi ystafell – Medi 2024 – Awst 2025 £1695.00 Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Rhodri Wigley ac fe'i heiliwyd gan Iwan Pughe Jones

**19:873**: Mae problem gyda llifogydd yn Llanwrin yn effeithio ar dai, gweithdy a llwybr cyhoeddus yn y cyffiniau o ganlyniad i beipen draenio dŵr o fondo'r Hen Gapel. Bydd y Cyngh.William Owen yn cysylltu â chymdeithas Tai Barcud ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor am y cynnydd.

**19:874: Gohebiaeth**

- **Pwynt gwefrio ceir trydan** – Yn dilyn trafodaeth helaeth, penderfynwyd cysylltu â Dewi Owen i'w wahodd i ymweld â'r Cyngor i rannu gwybodaeth am gostau a rhannu syniadau am

sut orau i fynd o'i chwmpas o bosib. Cynigiwyd hwn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Iwan Pughe Jones

- **Powys Cynaliadwy** - Cafwyd gwahoddiad i gyfarfod i drafod Powys cynaliadwy. Gan y bydd y cyfarfod yr un pryd â chyfarfod nesaf y Cyngor cysylltir â Ms. Cox i gynnig cyfarfod rhithiol gyda'r Cadeirydd a'r Clerc.
- **Cyngor Tref y Trallwng** - Cafwyd llythyr gan yn gofyn am gefnogaeth i ddeddfwriaeth atal baw cŵn ar feysydd chwaraeon yn benodol. Gan fod y Cyngor yn wynebu problemau tebyg yng Nghemaes teimlwyd y byddai hyn yn gam berthnasol a chytunwyd i gefnogi'r achos yn unfrydol i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

**19:875: Adroddiadau'r Cynghorwyr Elwyn Vaughan – Cynghorydd Sir**

**Glantwymyn** - Mae'r cais cyfalaf a'r cynllun busnes ar fin cyrraedd Llywodraeth Cymru

**Ysgol Bro Hyddgen -** Bydd gwaith cynnal a chadw hanfodol yn cael ei wneud cyn i ESTYN ddychwelyd cyn y Pasg. Canmolwyd staff yr ysgol am eu gwaith arbennig er gwaethaf cyflwr truenus yr adeilad

**Ffordd y fet** - Mae Powys wedi rhoi'r sbec i Network Rail ac yn disgwyl amserlen ar gyfer y Gwaith.

**Ambiwlans Awyr** – Mae'r hen gyfreithiol wedi methu. Bydd cyfarfod yr wythnos nesaf i drafod cerbydau brys i Aberystwyth a'r Drenewydd. Mynegwyd siom a phryder y byddai'r Canolbarth unwaith eto'n cael ei hanghofio wrth i adnoddau gael eu tynnu i'r gogledd ddwyrain.

**Swyddfa Bost Machynlleth** - Bydd newidiadau i amserau agor sef 8.00yb – 8.00yh bob dydd ond am Ddydd Sadwrn pan fydd ar agor 9.00-1.00. Ni fydd modd gwneud gwiriadau ceisiadau pasbort yno ddim mwy.

**19:876: Ffyrdd –**

- Pont Cemaes wedi cael ei bwrw eto a charreg wedi dod yn rhydd.
- Cysylltir â NMWTRA i ofyn am gasgliadau'r ymchwil a wnaed yn ddiweddar i gyflymder cerbydau drwy'r pentref a gofyn am amserlen weithredu ar gyfer lleihau'r cyfyngder cyflymdra i 30mya o 40mya.
- Gwneir cais i gael cyfyngder cyflymder 30mya i bentref Glantwymyn i'r Asiantaeth cefn ffyrdd a'r Llywodraeth. Mae pryderon am ddiogelwch yn enwedig plant sy'n defnyddio'r bws ysgol yn croesi'r ffordd.
- Cais am halen i bob man yn yr ardal. Bydd y biniau newydd yn cael eu gosod ymlaen llaw.
- Llwybr Glantwymyn angen ei ysgubo – dail yn peryglu cerddwyr. Cysylltir ag Awi Williams.
- Gyli wedi blocio wrth Benybont, Glantwymyn. Bu damwain yma yn y gorffennol o ganlyniad i ddŵr yn cronni
- Mynegwyd diolch am fod tyllau yn ffordd yn ardal Darowen wedi cael eu llenwi.
- Ffordd yn rhoi gan fod dŵr yn cronni odditani ger Glandulas Mawr. Er bod y Cyngor ac Aled Lloyd wedi llenwi twll yma yn y gorffennol mae problem sylfaenol yn dal i fod. Cysylltir ag Aled Jones i drafod y broblem gyda'r cylfat a threfnu cyfarfod safle.
- Cylfat ger mynedfa CAT lle mae dŵr yn gorlifo tuag at Bentir yn lle mynd i lawr y beipen. Cysylltir ag Aled Jones i gael cyfarfod safle yma hefyd.
- Cerbydau'n cynyddu a mynd ar gyflymder ar y ffordd gefn o Ffriddgate i Dop y Grofft, yn benodol ger Abernant gan greu anghyfleustra. Cysylltir ag Aled Jones

- Ffordd Llanwrin – angen glanhau a sugno'r trynciau.
- Mae'r broblem ger cae Gronwy wedi cael ei datrys. Mynegir diolch i Gyngor Sir Powys.
- Mae'r ffens rhwng tŷ Bedwyr a phentref Cemaes wedi torri.

**19:877: Unrhyw fater arall**

- Safle bysys Llanwrin - Diolch i Gareth Owen am fynd i'r afael â'r canghennau. Mae erbyn hyn yn barod i'w drwsio. Ceir diweddariad yn y cyfarfod nesaf.
- Ciosg Darowen – wedi cael ei ddatgomisiynu. Mae yn adeilad rhestredig o dan statws cadwraethol y pentref. Cysylltir â BT a gofyn am ei brynu. Cafwyd cais am gael tynnu'r sgriw sy'n dal y drws ynghau gan fod y pentrefwyr eisiau ei defnyddio i rannu papurau cymunedol ac ati.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.51

**<u>Ymddiriedolaeth Melinau Gwynt Cemaes 30.10.25</u>**

Padiau deffibs Abercegir a sticeri i ddangos lleoliad diffib Llanwrin – £80.40 – ad-daliad i Bedwyr Fychan (Cynrychiolydd Diffibs)

Llythyr i ddiolch am y cyfraniad at fynwent Cwmlline gan Mr. Stephen Tudor

Llythyr i ddiolch am gyfraniad ar gyfer meinciau'r Cyngor Cymuned gan CC Glantwymyn

Cysylltir eto â Simon Ling EDF gael copi cywir o'r cytundeb ganddo.

Daeth y cyfarfod i ben am 21.07